Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Cynorthwyydd Ymchwil**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran:** | Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd |
| **Adran/Pwnc:** | Seicoleg |
| **Cyflog:** | Gradd 7: £34,610 i £38,784 y flwyddyn (bydd y penodiad yn cael ei wneud ar bwynt cychwynnol y raddfa) |
| **Oriau gwaith:** | 21 awr (3 diwrnod) yr wythnos |
| **Nifer y swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Swydd cyfnod penodol yw hon, sydd ar gael tan 31 o Fai 2027. |
| **Lleoliad:** | Mae'r swydd hon yn mabwysiadu gweithio hybrid rhwng cartref, Campws Parc Singleton, ac ar y safle. |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Gan weithio'n agos gydag aelodau o Ganolfan Ymchwil, Addysg a Thriniaeth Gamblo (GREAT), bydd deiliad y swydd yn gwerthuso effaith pecyn cymorth pwrpasol i helpu i nodi ac asesu niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ymysg cyn-filwyr y Lluoedd Arfog. Byddant yn lledaenu canfyddiadau, yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, ac yn cyfrannu at adroddiad terfynol y prosiect. Mae'r gwaith dan sylw yn tynnu ar wybodaeth bresennol am sgrinio ac asesu gamblo ymysg cyn-filwyr a gynhaliwyd gan y tîm (*Current Addiction Reports*, 2025, https://doi.org/10.1007/s40429-025-00677-0) ac mae'n anelu at ddarparu adnodd effeithiol i sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau eraill sy'n cefnogi cyn-filwyr a'u teuluoedd. Gan weithio ar eich menter eich hun, bydd eich prif ddyletswyddau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gysylltu â phartneriaid allanol, adrodd ar werthusiadau, lledaenu canfyddiadau mewn digwyddiadau cyfnewid gwybodaeth, a drafftio'r adroddiad terfynol ar gyfer y cyllidwr. |
| | 1. Cyfrannu'n rhagweithiol at gynnal ymchwil, gan gynnwys casglu, paratoi a dadansoddi data a chyflwyno canlyniadau, gan ddangos elfen o annibyniaeth o ran pennu ffocws a chyfeiriad yr ymchwil honno.<br>2. Paratoi adroddiadau, a drafftio patentau a phapurau sy'n disgrifio canlyniadau'r ymchwil, yn gyfrinachol ac ar gyfer cyhoeddi. Disgwylir i'r deiliad ymgysylltu'n weithredol ag ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig y rheini a fwriadwyd ar gyfer eu cyhoeddi mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid (e.e. rhyngwladol) neu rai cyfatebol, fel rhan arferol o'u rôl.<br>3. Bod yn hunanysgogol, gan ddefnyddio menter i bennu ffyrdd addas o ymdrin â heriau a gofyn am arweiniad pan fo angen.<br>4. Defnyddio creadigrwydd i ddadansoddi a dehongli data ymchwil a dod i gasgliadau am y canlyniadau.<br>5. Rhyngweithio'n gadarnhaol a phroffesiynol â chydweithwyr a phartneriaid eraill o fewn y Gyfadran, mewn mannau eraill yn y Brifysgol a thu hwnt, o fewn diwydiant/masnach a'r byd academaidd.<br>6. Cyfrannu'n rhagweithiol at ddatblygu ceisiadau am gyllid allanol i gefnogi eu gwaith eu hunain, gwaith eraill, a gwaith y Gyfadran a'r Sefydliad yn gyffredinol. Disgwylir i'r deiliad, fel rhan arferol o'i waith, ymgysylltu'n weithredol ag ysgrifennu neu gyfrannu at ysgrifennu ceisiadau o'r fath.<br>7. Cyfrannu at faterion trefniadol y Gyfadran er mwyn helpu iddi redeg yn esmwyth a helpu i godi ei phroffil ymchwil allanol.<br>8. Cadw'n hyddysg am ddatblygiadau yn y maes, o ran termau technegol a phenodol yn ogystal â'r maes pwnc ehangach, a goblygiadau ar gyfer cymwysiadau masnachol a'r economi wybodaeth neu'r byd academaidd.<br>9. Cyfrannu at oruchwylio myfyrwyr prosiect israddedig ar bynciau'n ymwneud â niwed gamblo ac ymgymryd ag unrhyw asesu perthnasol.<br>10. Dangos a darparu tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol personol, gan nodi anghenion datblygu gan gyfeirio at Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae, yn arbennig o ran prawf, adolygiadau perfformiad, a chymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi.<br>11. Cynnal a chryfhau cysylltiadau â sefydliadau proffesiynol a chyrff cysylltiedig eraill.<br>12. Cadw at brotocolau arferion gorau wrth gynnal a chadw cofnodion ymchwil, fel yr amlinellir yng nghanllawiau rheoli cofnodion Sefydliadau Addysg Uwch a'r Cynghorau Ymchwil. Mae hyn yn cynnwys |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

| | |
|---|---|
| | sicrhau bod cofnodion llyfr log y prosiect yn cael eu cyflwyno i'r Brifysgol/Prif Ymchwilydd ar ôl cwblhau'r gwaith |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 13. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gwaith cadarnhaol.<br>14. Cyflawni rôl y swydd a phob gweithgaredd yn unol â pholisïau a systemau rheoli iechyd, diogelwch a chynaliadwyedd, er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau sy'n deillio o'r gweithgaredd gwaith.<br>15. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses gwneud penderfyniadau, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol.<br>16. Unrhyw ddyletswyddau eraill fel y cytunir gan y Gyfadran / Cyfarwyddiaeth / Maes Gwasanaeth. |
| **Manyleb y Person** | **Meini prawf hanfodol:**<br>1. Gradd israddedig neu ôl-raddedig mewn seicoleg, seiciatreg, iechyd cyhoeddus, gwyddorau dibyniaeth neu gyfatebol.<br>2. Tystiolaeth o ymgysylltu'n weithredol â, a chyfrannu at, ysgrifennu a chyhoeddi papurau ymchwil, yn enwedig ar gyfer cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid.<br>3. Y gallu i ddangos annibyniaeth sylweddol o ran ffocws a chyfeiriad ymchwil – penderfynu 'beth, pam, pryd a chyda phwy' i symud y gwaith yn ei flaen.<br>4. Profiad y gellir ei ddangos mewn ymchwil dulliau cymysg a gwerthuso pynciau clinigol berthnasol gyda phoblogaethau bregus.<br>5. Profiad y gellir ei ddangos o weithio mewn tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys sefydliadau'r trydydd sector.<br>6. Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br>7. PhD neu gyfatebol mewn seicoleg, seiciatreg, iechyd cyhoeddus, gwyddorau dibyniaeth neu gyfatebol.<br>8. Profiad o baratoi a chyflwyno adroddiadau mewnol.<br>9. Ymwybyddiaeth o'r materion moesegol sy'n gysylltiedig ag ymchwil gyda chyn-filwyr y Lluoedd Arfog. |
| **Lefel y Gymraeg** | Lefel 1 – 'ychydig' - ynganu geiriau Cymraeg. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da / prynhawn da). Gallu defnyddio geiriau a chymalau bob dydd sylfaenol iawn (diolch, os gwelwch yn dda ayb). Gellir cyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant awr o hyd.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Gymraeg, cyfeiriwch at dudalen we Asesu Sgiliau Cymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: Simon Dymond, s.o.dymond@swansea.ac.uk |

Athena SWAN Silver Award — ECU Gender Charter
Stonewall Cymru DIVERSITY CHAMPION
HR EXCELLENCE IN RESEARCH